



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Cynllun Iaith Canolfan Mileniwm Cymru – Gorffennaf 2022

Rydym yn falch o'n dwyieithrwydd. Ers agor ein drysau yn 2004, rydym wedi bod o ddifrif am ein cyfrifoldeb i ddarparu profiad dwyieithog o safon i'n cwsmeriaid, ein hymwelwyr a'n staff, ac rydym yn falch o'n treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae'r Gymraeg yn rhan o'n hunaniaeth a'r hyn sy'n ein gwneud ni'n unigryw.

Ers 2017, rydym wedi cadw at Safonau'r Gymraeg, ac rydym wedi ymrwymo i gynnal y Safonau sy'n sicrhau bod modd i bobl ddefnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r dogfennau canlynol yn amlinellu sut rydym yn llwyddo i wneud hyn.

1) Ymrwymiad Canolfan Mileniwm Cymru i'r Gymraeg. (tudalen 2)

2) Ein cynllun cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. (tudalen 3)

Y Cyd-destun Presennol, Gorffennaf 2022

Cyflwynir y diweddariad yma flwyddyn ers ein Cynllun Iaith diwethaf. Yn ystod 2021-22 rydym wedi ailagor, cau ac ailagor ein hadeilad eto yn unol â chyfyngiadau newidiol y Coronafeirws. Mae carfan fawr o staff newydd yn ymgysgu â'u rolau ym mhob rhan o'r sefydliad, ac mae gwaith wedi dechrau i drawsnewid ein hardaloedd blaen y tŷ.

- Rydym wedi ystyried y Gymraeg a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid, ein staff ac ymwelwyr ym mhob penderfyniad wrth i ni ymateb i gyfyngiadau newidiol y Coronafeirws.
- Nid yw ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog rhagorol wedi newid. Mae ein llinellau ffôn wedi dychwelyd i ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae ein man gwybodaeth dros dro a Drws y Llwyfan yn gallu darparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg. Rydym wedi datblygu system sgwrsfot awtomataidd newydd yn Gymraeg a Saesneg, a gwnaed ymdrech sylweddol i sicrhau bod y fersiwn Cymraeg yr un mor ddatblygedig â'r fersiwn Saesneg. Mae'r pwyntiau cyswllt digidol eraill drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan ac e-bost yn gwbl ddwyieithog o hyd.
- Fel sy'n wir erioed, caiff dewis iaith ein cwsmeriaid ei gofio a'i barchu. Ar hyn o bryd, mae gennym 5,065 o gwsmeriaid sydd wedi cofrestru'r Gymraeg fel eu



dewis iaith, ac mae 1,998 yn ychwanegol wedi dewis derbyn deunydd cyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Rydym yn cadw cofnod ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol o weithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021-2022, roedd gan gyfanswm o 80 o aelodau o staff parhaol/cyfnod penodol ac 83 o aelodau o staff dros dro ryw lefel o sgiliau Cymraeg.
- Gwnaethom ailsefydlu ein cynnig o wersi Cymraeg am ddim drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Hyd yma, mae 37 o aelodau o staff wedi cwblhau hunanasesiad drwy'r porth Cymraeg Gwaith a dechrau ar eu taith i ddysgu Cymraeg.
- Rydym yn parhau i gynnal sesiynau 'Clonc' anffurfiol – sef clwb siarad ar gyfer dysgwyr i ymarfer gyda dysgwyr eraill a siaradwyr rhugl. Wrth i'r sefydliad symud yn ôl i weithio yn y swyddfa a daeth patrwm gwaith newydd i'r amlwg, aildrefnwyd y sesiynau hyn i fod wyneb yn wyneb amser cinio bob dydd lau, yn hytrach nag ar-lein.
- Mae Anthem, comedi gerddorol Gymraeg a chynhyrchiad diweddaraf Canolfan Mileniwm Cymru, yn agor ym mis Gorffennaf ar ôl cael ei gohirio oherwydd y Coronafeirws. Mae sioe gerdd Gymraeg newydd wrthi'n cael ei datblygu.
- Mae Radio Platfform, sef ein rhaglen hyfforddiant a gorsaf radio dan arweiniad pobl ifanc yn ymrwymedig i gynnal cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd 50 o raglenni radio eu darlledu yn Gymraeg. Mae'r orsaf yn gweithio gyda Menter Iaith Rhondda Cynon Taf er mwyn ehangu'r hyn sy'n cael ei ddarparu yn Gymraeg, a chaiff hyfforddiant dwyieithog ei gynnal ym Merthyr Tudful yn hwyrach eleni.

1) Ymrwymiad Canolfan Mileniwm Cymru i'r Gymraeg

Cafodd Safonau'r Gymraeg eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod modd i unigolion gael mynediad at wasanaethau Cymraeg pan fyddan nhw'n cysylltu â chyrrff cyhoeddus.

Yng Nghanolfan Mileniwm Cymru rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r safonau hynny ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Dyma ein hymrwymiad i ymwelwyr a chwsmeriaid...



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Byddwn:

- Yn eich croesawu i Ganolfan Mileniwm Cymru yn Gymraeg
- Yn cyfathrebu â chi yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Yn parchu ac yn cofio eich dewis iaith
- Yn hyrwyddo sioeau a digwyddiadau yn ddwyieithog mewn print ac ar-lein
- Yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Yn hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni

Gallwch chi:

- Siarad â ni yn Gymraeg ar y ffôn neu wyneb yn wyneb
- Anfon llythyr neu e-bost aton ni yn Gymraeg
- Cwyno wrthon ni yn Gymraeg neu yn Saesneg os bydd pethau'n mynd o chwith

Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg...

- Dros y ffôn
- Drwy e-bost
- Drwy lythyr
- Wyneb yn wyneb
- Drwy gwe-sgwrs

Mae modd i bawb ddarllen ein Hymrwymiad ar ein gwefan [yma](#)

2) Ein cynllun cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Dyma sut rydym yn cyflawni ein Safonau.

Mae Safonau'r Gymraeg yn sicrhau hawliau i bobl gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg.

Cafodd y safonau eu cyflwyno gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a gwaith Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r safonau.



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Mae'r cynllun cydymffurfio canlynol yn amlinellu sut y byddwn ni yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Ysgrifennu atom

1. Os byddwch yn anfon llythyr neu e-bost atom neu'n cysylltu â ni drwy gwe-gwrs, gallwch wneud hynny yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg.
2. Os byddwn yn ysgrifennu atoch chi am y tro cyntaf neu os nad yw eich dewis iaith yn hysbys i ni, byddwn yn ysgrifennu atoch yn ddwyieithog.
3. Pan fyddwn yn ysgrifennu at lawer o bobl ar yr un pryd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog bob amser.
4. Ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fyddwn yn anfon llythyron neu negeseuon e-bost at y cyhoedd am y tro cyntaf.
5. Rydym yn nodi'n glir yn ein gohebiaeth, hysbysebion a chyhoeddiadau ein bod yn croesawu cyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cysylltu â ni dros y ffôn

1. Rydym yn croesawu galwadau ffôn i'n Canolfan Gyswllt yn Gymraeg ac yn Saesneg.
2. Bydd pob aelod o staff sy'n cael galwadau ffôn yn uniongyrchol gan aelodau'r cyhoedd yn eu cyfarch yn Gymraeg.
3. Rydym yn rhoi dewis iaith i bawb sy'n ffonio ein prif rif ffôn cyswllt, ac mae'r neges sy'n eu cyfarch, a'r cynnig dewis iaith, yn ddwyieithog.
4. Os byddwch yn dewis yr opsiwn Cymraeg ar ein prif rif ffôn, byddwn yn cynnal yr holl sgwrs â chi yn Gymraeg.
5. Pan fyddwch yn ein ffonio, byddwn yn gofyn am eich dewis iaith ac yn nodi hyn ar ein cronfa ddata.
6. Os byddwch yn ffonio rhif ffôn uniongyrchol aelod o staff nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg, byddan nhw'n cynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg os yn bosibl.
7. Mae negeseuon ein prif beiriant ateb yn ddwyieithog ac mae modd i chi adael neges yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Cyfarfodydd a digwyddiadau

1. Os byddwn yn gwahodd aelod o'r cyhoedd i gyfarfod, byddwn yn gofyn a ydyn nhw am gynnal y sgwrs yn Gymraeg, a byddwn yn trefnu cyfieithydd os mai dyna yw eu dymuniad.
2. Os byddwn yn gwahodd grŵp o aelodau o'r cyhoedd i gyfarfod, byddwn yn gofyn i'r rhai sy'n dod a ydyn nhw am gynnal y sgwrs yn Gymraeg, ac os bydd 10 y cant neu fwy ohonynt yn dweud y byddan nhw, byddwn yn trefnu cyfieithydd.
3. Pan fyddwn yn trefnu neu'n ariannu o leiaf hanner cyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus, byddwn yn hysbysebu, yn hyrwyddo ac yn anfon gwahoddiadau yn ddwyieithog.
4. Os ydych chi'n dod i gyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus rydym wedi'i drefnu, mae croeso i chi gyfrannu yn Gymraeg a byddwn yn darparu offer cyfieithu.
5. Bydd deunyddiau a gwybodaeth am gyfarfodydd cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog cyn ac yn ystod y cyfarfod.
6. Weithiau, rydym yn cynnal cyrsiau neu sesiynau addysgol i'r cyhoedd ar y safle ac yn y gymuned – byddwn yn ystyried a oes galw ac angen i'w cynnal yn Gymraeg a byddwn yn cyhoeddi unrhyw asesiad ar ein gwefan.

Cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig

1. Bydd pob dogfen gyhoeddus, deunydd hyrwyddo a hysbyseb y byddwn yn eu cynhyrchu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd y ddwy iaith yn ymddangos mor amlwg â'i gilydd.
2. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a deunyddiau sy'n cael eu harddangos ar y safle yn Gymraeg ac yn Saesneg.
3. Byddwn yn cynhyrchu dogfennau'n ddwyieithog bob amser; fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl oherwydd maint y ddogfen, bydd fersiwn Cymraeg ar gael ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, a byddwn yn nodi ar y copi Saesneg bod fersiwn Cymraeg ar gael.
4. Bydd ein ffurflenni ar gael yn Gymraeg a Saesneg.



5. Bydd y ddwy iaith yn ymddangos mor amlwg â'i gilydd ar ein hunaniaeth gorfforaethol.

Yn ddigidol ac ar-lein

1. Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog a byddwn yn diweddarau'r tudalennau Cymraeg ar yr un pryd â'r tudalennau Saesneg.
2. Byddwn yn sicrhau ei bod hi'n hawdd newid rhwng y ddwy iaith ar bob tudalen ar ein gwefan.
3. Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg ar ein gwefan.
4. Mae adran benodol ar ein gwefan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth am y ffordd rydym yn cydymffurfio â'r Safonau – byddwn yn diweddarau'r adran hon yn rheolaidd.
5. Rydym yn defnyddio Twitter, Facebook, Instagram a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill i gyfathrebu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid. Byddwn yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr holl lwyfannau hyn.
6. Os byddwch yn anfon neges atom ar y cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn ateb yn iaith y neges wreiddiol.

Yn y Ganolfan

1. Rydym yn sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio ar y ddesg flaen a'r swyddfa docynnau fel bod modd i ni ddarparu gwasanaeth Cymraeg i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â ni.
2. Os ydym wedi trefnu cyfarfod gyda chi a'ch bod yn dweud wrthym o flaen llaw eich bod am gael gwasanaeth Cymraeg yn y dderbynfa, byddwn yn trefnu hyn.
3. Byddwn yn arddangos arwydd wrth Ddrws y Llwyfan a'r ddesg flaen yn nodi bod croeso i chi siarad â ni yn Gymraeg.
4. Bydd staff wrth y ddesg flaen a Drws y Llwyfan sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn, fel ei bod yn hawdd eu hadnabod. Yn gyffredinol, bydd yr holl staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn / llinyn gwddf yn nodi hynny.



5. Bydd ein holl arwyddion, boed yn rhai parhaol neu dros dro, yn ddwyieithog, ac mae gennym weithdrefnau ar waith i sicrhau eu bod yn gywir.
6. Pan fyddwn yn gwneud cyhoeddiadau dros y system sain, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg, ac eithrio yn ystod argyfyngau.

Tendro

1. Pan fyddwn yn cyhoeddi tendr am wasanaethau, byddwn yn cyhoeddi'r gwahoddiad yn ddwyieithog.
2. Rydym yn croesawu tendrau yn Gymraeg, a byddwn yn gwneud trefniadau ar gyfer y rhai sydd wedi tendro gyda ni i gael eu cyfweld yn Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno.
3. Ni fyddwn yn trin unrhyw dendr a gafwyd yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendrau yn Saesneg.

Creu polisïau

1. Pan fyddwn yn adolygu un o'n polisïau neu'n datblygu polisi newydd, byddwn yn ystyried unrhyw effaith y gallai'r polisi hwn ei chael ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.
2. Gyda phob polisi newydd, ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a byddwn yn meddwl am ffyrdd y gallai'r polisi gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
3. Yn yr un modd, wrth ymgynghori neu gynnal gwaith ymchwil i ddatblygu polisïau, byddwn yn ystyried effaith y polisi ar y Gymraeg ac yn ceisio barn am hynny.

Fel cyflogwr

1. Rydym yn ymrwymo i'r egwyddor y gall ein staff fyw eu bywydau yn y gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r safonau – o lenwi ffurflen gais a chael cyfweiliad, i drafod materion sy'n ymwneud â'u cyflogaeth yn Gymraeg.



2. Wrth recriwtio, byddwn yn ystyried yr angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag. Byddwn yn hysbysebu pob swydd yn Gymraeg a Saesneg.
3. Gallwch wneud cais am swydd gyda ni drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn cyfathrebu â chi am eich cais yn Gymraeg os dymunwch.
4. Ni fyddwn yn trin ceisiadau swydd a gafodd eu cyflwyno yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau yn Saesneg.
5. Bydd ein polisïau sy'n sôn am amodau gwaith ein staff sydd wedi'u rhestru yn y safonau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
6. Rydym yn annog staff i siarad Cymraeg yn y gwaith a byddwn yn eu cefnogi a'u helpu i wella eu sgiliau iaith drwy drefnu gwersi yn ystod oriau gwaith.

Monitro a goruchwyllo

Byddwn yn rhagweithiol yn y ffordd rydym yn monitro ein cydymffurfiaeth â'r safonau, a'r Uwch Dîm Strategol fydd yn arwain ar y broses hon. Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu paratoi i alluogi rheolwyr i nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Byddwn hefyd yn casglu tystiolaeth am gydymffurfiaeth yn rheolaidd ac yn sicrhau ei bod ar gael i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl yr angen.

Yn ogystal, rydym wedi comisiynu cwmni ATEB i'n cefnogi ac adolygu ein perfformiad yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ein safonau.

Cadw cofnod ac adrodd yn flynyddol

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau iaith, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol am y Gymraeg ar ein gwefan. Bydd yr adroddiad yn egluro sut rydym wedi cydymffurfio â'r holl safonau, gyda thystiolaeth i ddangos sut rydym yn cyflawni'r gofynion. Bydd yr adroddiad yn dangos hefyd a ydym wedi methu â chyflawni unrhyw safon, ac a oes rhywun wedi cwyno am ein darpariaeth Gymraeg.

Pan fydd pethau'n mynd o chwith

Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl bob amser, ond weithiau gall pethau fynd o chwith.



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi cyflawni ein dyletswyddau fel y'u nodir yn y safonau, gallwch wneud cwyn i ni. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddysgu o'r profiad ac i roi camau yn eu lle i gywiro camgymeriadau. Mae ein gweithdrefn gwynion ar gael ar ein gwefan.

Byddwn yn delio â phob cwyn iaith yn unol â'n gweithdrefn gwynion a sylwadau. Gallwch gyflwyno cwyn drwy lythyr neu e-bost. Ein Canolfan Gyswilt sy'n gyfrifol am gofnodi ac ymateb i gwynion. Bydd aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn monitro'r achos, a byddwn yn darparu adborth am ein cynnydd i reolwyr a staff perthnasol. Byddwn yn adrodd am unrhyw gwynion sy'n gysylltiedig â'r safonau a'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol.

Ac yn olaf...

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau ac yn awyddus i wneud hyn mewn ffordd naturiol, yn unol â'n hethos o ddarparu croeso cynnes Cymraeg.

Mae gan bawb sy'n gweithio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru gyfrifoldeb i'n helpu i gyflawni'r nod hwn. Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith yn hanfodol ar gyfer hyn, ond byddwn hefyd yn cefnogi ac yn rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod staff di-Gymraeg yn deall ein dyletswyddau hefyd.

Er mwyn cyflawni gofynion y safonau, byddwn yn cymryd nifer o gamau, gan gynnwys:

- Sicrhau bod ein holl staff yn cyflawni hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth iaith am ofynion y safonau a defnydd o'r iaith yn y gweithle
- Darparu meddalwedd a thempledi i staff i'w helpu i gydymffurfio â'r safonau yn eu gwaith bob dydd
- Cynnig cymorth cyfieithu a phrawfddarllen yn ôl yr angen
- Bod â pholisi am ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith. Ar gael i Gyngor y Celfyddydau ar gais.
- Gweithio gydag arbenigwyr annibynnol i gynghori ar faterion cydymffurfio